

# DOLEN Y TAB – 47

19–20 MAWRTH 2021

**\* Oedfa Rithiol fore Sul 21 Mawrth\***

Yng nghwmni'r Parchg. Gethin Rhys.

**Oedfaon dros yr wythnosau nesaf**

## Mawrth

28 Emlyn Davies

## Ebrill

4 Eirian Rees a chriw Efail Isaf

11 Y Parchg. Aled Edwards

18 Oedfa Deuluol

**Hefyd ar 21 Mawrth . . .**

**11.00 Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol**

Yng ngofal Robat Powell, Abertawe.

**12.00 Oedfa Radio Cymru**

Yng nghwmni Trystan Owain Hughes, Caerdydd.

**12.30 Radio Cymru**

*Bwrw Golwg* gyda John Roberts.

**E-fwletin Cristnogaeth21**

Bob bore Sul

[www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## **'Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwy'**

Wedi i'r criw gweithgar fu'n cwrdd bob bore lau glirio'r holl fieri a'r drain yn ardal y rhandiroedd ar bwys y fynwent, trefnwyd i gynnu coelcerth anferth i losgi'r cyfan. Syfrdanwyd pawb oedd yn bresennol wrth weld pa mor eang oedd y llecyn hwn wedi gwaredu'r holl ordyfiant. Sylweddolodd y criw fod gan yr eglwys bellach adnodd gwerthfawr iawn y gellid yn hawdd ei ddatblygu'n ardd gymunedol er lles ysbrydol ac iechyd meddwl aelodau'r Tabernacl a thrigolion pentref Efail Isaf. Eisoed cafodd yr awgrym dderbyniad gwresog gan aelodau'r Bwrdd nos Fawrth, ond bydd angen cyflwyno rhagor o fanylion am y cynllun cyn gallu dod i gasgliad terfynol. Mae'n bosib felly gwireddu neges adnod 16 ym mhennod 7 o Efengyl Mathew, serch nad grawnwin a ffigys fydd y ffrwyth gaiff ei gynaeafu ond gwledd o flodau gwyllt amryliw, a llonyddwch i'w mwynhau.



## DIOLCH ...

**ac ar yr un gwynt ...**

## CAIS AM RODDION

Diolch yn fawr iawn i chi am barhau â'ch cefnogaeth hael i'r Banc Bwyd. Fel y gwyddoch chi, maen nhw'n hynod ddiolchgar i ni am bob cymorth, ac yn rhagweld y bydd angen dirfawr am amser hir i ddod. Mae'n braf gwybod ein bod yn medru helpu.

## RHOIDDION Y PASG

Mae'n fwriad gan y Gweithgor Cymorth Cymdeithasol i ddatlu'r Pasg eleni drwy gasglu danteithion (yn cynnwys Wyau Pasg) a nwyddau hylendid ar gyfer Cymorth i



Ferched Cymru ac elusen Pobl. Bydd y capel ar agor rhwng **10.30 a 11.30 fore lau Mawrth 25ain ac Ebrill 1af** i unrhyw un sy'n dymuno danfon rhoddion.

## Ydy hi'n bryd ail-agor y Tabernacl?

Yn gynharach yr wythnos hon cynhaliwyd cyfarfod o'r Bwrdd dan gadeiryddiaeth Edwyn. Ymhlith y materion a godwyd oedd y cwestiwn pryd y dylem anelu i ail-agor y capel. Arweiniodd hyn at drafodaeth fywiog ymhlith yr aelodau. Tra bod pawb yn awyddus i ddychwelyd i addoli yn y Tabernacl, roedd rhai yn daer o blaid gosod targed pendant i agor y drysau unwaith yn rhagor naill ai ym mis Mehefin neu ddechrau Gorffennaf. Un o'u dadleuon dros fanteisio ar fisoedd yr haf oedd eu pryder bod llawer o sôn am drydedd ton yn yr hydref a bod perygl y byddai cyfyngiadau'r misoedd diwethaf yn cael eu cyflwyno unwaith yn rhagor. Roedd rhai aelodau am oedi i weld faint mwy o lacio a wneir i'r cyfyngiadau yn ystod y misoedd nesaf.

Cytunwyd i drafod y mater ymhellach yng nghyfarfod Ebrill, yn y gobaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi amserlen gliriach erbyn hynny i gynorthwyo'r Bwrdd wrth bwysu a mesur pa bryd y gellid ail-agor y drysau unwaith yn rhagor.

# Arloesi a Buddsoddi

Nos Lun 1 Chwefror cynhaliwyd cyfarfod cyntaf yr Is-bwyllgor a sefydlwyd gan y Bwrdd i weld a oedd yna unrhyw fanteision i'r Tabernacl o ymuno â'r Rhaglen Arloesi a Buddsoddi a lansiwyd gan yr Undeb ar ddiwedd 2020. Y dasg gyntaf oedd penderfynu sut y gellid rhoi arweiniad ystyrllon i'r aelodau cyn trefnu cyfarfodydd fyddai'n cynnig cyfle i aelodau'r Tabernacl fynegi barn ar unrhyw gasgliadau neu argymhellion fyddai'n deillio o waith y grŵp.

Yn y cyfarfod agoriadol cytunwyd mai'r dasg gyntaf fyddai cymryd stoc o sefyllfa bresennol yr achos. Derbyniwyd yr awgrym mai un ffordd effeithiol o wneud hyn fyddai trwy gynnal dadansoddiad SWOT – ymarferiad sy'n gyffredin iawn yn y gweithle. Gwneir hyn drwy asesu'r cryfderau a'r gwendidau presennol, ac o hynny symud ymlaen i bwysu a mesur y cyfleoedd posib ac unrhyw fgythyadau. Gan mai cwrdd dros Zoom oeddynt, penderfynwyd mai'r dull mwyaf effeithiol o gynnal yr ymarferiad oedd trwy osod 'gwaith cartref' i'r aelodau i'w gyflwyno cyn corlannu eu hawgrymiadau yn un ddogfen gyfansawdd.

Roedd canlyniadau'r ymarferiad yn werthfawr a dadlennol iawn a chryn gonsensws ymhlith aelodau'r pwyllgor. Ond cyn bwrw ymlaen i'r cam nesaf gwahoddwyd aelodau'r Bwrdd i fynegi barn ar ymarferiad yr Is-bwyllgor. Erbyn eu hail gyfarfod ar 22 Chwefror roedd aelodau'r Is-bwyllgor wedi cael amser i ddarllen sylwadau aelodau unigol y Bwrdd oedd yn cadarnhau gwerth cynnal yr ymarferiad SWOT gan i'w sylwadau atgyfnerthu'r ddealltwriaeth oedd gan yr aelodau o gyflwr presennol yr achos a hefyd gan i aelodau'r Bwrdd gynnig sawl awgrym gwerthfawr o'r dewisiadau posib.

Cytunwyd yn yr ail gyfarfod mai'r cam nesaf fyddai ceisio blaenoriaethu'r cyfleoedd posib a dewis pa brosiect neu brosiectau y gellid eu mabwysiadu gyda'n hadnoddau ein hunain heb droi at yr Undeb am gymorth ariannol, a pha brosiectau y medrid ystyried gwneud cais am nawdd y Rhaglen Arloesi a Buddsoddi, naill ai ar ein liwt ein hunain, neu mewn partneriaeth gydag eglwys neu eglwysi eraill.



## Ymgynghori Pellach

Yn y cyfamser derbyniwyd mai un o'r heriau mwyaf a wynebir yn y blynyddoedd nesaf fydd cynnig darpariaeth addas a deniadol i'n pobl ifanc a sicrhau bod y Tabernacl yn berthnasol i rai o dan 50 mlwydd oed. Yn sgil hyn cynigiodd Heulyn Rees drefnu cyfarfodydd dros Zoom ar ran yr Is-bwyllgor gyda'r Twmiaid a rhieni ifanc yr Ysgol Sul ar wahân i gasglu sylwadau ac awgrymiadau ganddynt ar y ffordd ymlaen i'r Tabernacl. Mynychodd 15 o'r Twmiaid y cyfarfod dros Zoom a gofynnwyd iddynt flaenoriaethu nifer o opsiynau a ddangosai fod gan y mwyafrif ohonynt ddiddordeb mawr mewn prosiectau cymunedol ac elusennol ynghyd â gweithgareddau megis gwyliau blynyddol. Y Sul canlynol tro'r rhieni oedd hi i rannu eu syniadau. Roedd pob un ohonynt o'r farn bod y Tabernacl yn le croesawgar a hwyliog ac roeddynt yn falch eu bod yn perthyn ynddo. Serch hynny, teimlent y gellid cynnal llawer iawn mwy o weithgareddau yn enw'r eglwys – mwy nag y medrwn eu rhestru yma.

## Y Camau Nesaf

Bellach, a hwythau wedi ymgynghori â thrawstoriad eang o gynulleidfa'r Tabernacl, bydd yr Is-bwyllgor yn cwrdd cyn diwedd y mis i dafoli'r dystiolaeth a gasglwyd cyn symud ymlaen i'r camau nesaf. Yn gyntaf, bydd angen blaenoriaethu'r cynllun neu'r cynlluniau mwyaf tebygol o fod yn dderbyniol ac yn fwyaf effeithiol o'u mabwysiadu cyn ymgynghori ymhellach â'r Bwrdd a threfnu cwrdd gydag aelodau'r eglwys.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddiontrwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

*Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: [gehpenqwertn@yahoo.co.uk](mailto:gehpenqwertn@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205.*